| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Mehefin 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **System Bleidleisio Electronig** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Gweithredu'r system bleidleisio electronig yn Siambr y Cyngor a'r goblygiadau cyfansoddiadol o newid y ffordd y caiff ei defnyddio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth ynglŷn â gweithredu'r system bleidleisio electronig, ceisiadau a wnaed am wybodaeth o'r system a'r goblygiadau o newid y ffordd y caiff y system ei defnyddio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn penderfynu ynghylch gweithredu'r system bleidleisio electronig yn y dyfodol yn Siambr y Cyngor, mynediad at y cofnodion pleidleisio a gynhyrchwyd, ac unrhyw ddiwygiadau hanfodol i reolau sefydlog y Cyngor.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn gosod y ffordd y pleidleisir yng nghyfarfodydd y Cyngor neu ei bwyllgorau. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y pleidleisir naill ai drwy godi dwylo neu gadarnhau'r cyfarfod. Cynhelir y mwyafrif o gyfarfod mewn ystafelloedd cyfarfod ac eithrio Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, lle nad oes unrhyw gyfleusterau pleidleisio electronig. Dim ond y Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Cynllunio sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn Siambr y Cyngor.

4.2. Defnyddir y system bleidleisio electronig yn Siambr Neuadd y Sir i gynhyrchu niferoedd sydyn a chywir o aelodau sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu'n ymatal ar y cynnig. Mae'r system hefyd yn cofnodi'r ffordd mae bob aelod yn bwrw ei bleidlais ac fe ofynnir am y cofnodion hynny ar adegau gan gynghorwyr, y wasg ac aelodau o'r cyhoedd. Oherwydd y defnydd a wneir o'r system bleidleisio, mae'r Cyngor yn annhebygol ar hyn o bryd i ryddhau gwybodaeth am y pleidleisiau unigol a fwriwyd (hyd yn oed yn dilyn cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth) oherwydd nad ydyw'r Cyngor yn gallu sicrhau cywirdeb y wybodaeth.

4.3 Oherwydd bod y system bleidleisio electronig ond yn cael ei defnyddio i gofnodi nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid, yn erbyn neu i ymatal, mewn perthynas ag unrhyw fater mae'n rhaid gwneud penderfyniad arno mewn cyfarfod, byddai'n rhaid gosod rhagofalon ychwanegol i sicrhau cywirdeb y cofnod o'r pleidleisiau a ddyrannwyd i gynghorwyr penodol. Byddai'r rhain yn cynnwys trefnau i sicrhau nad oedd aelodau byth yn symud o sedd a ddyrannwyd iddynt (neu fod eu cerdyn pleidleisio bob tro'n symud gyda nhw) a bod gwiriadau trylwyr yn cael eu gwneud ar gyflwyno cardiau pleidleisio i gael gwared ar y posibilrwydd o unrhyw wallau. Efallai y bydd yn rhaid i'r Cynghorwyr gymryd cyfrifoldeb hefyd am sicrhau eu bod wedi'u dyrannu gyda'r cerdyn pleidleisio cywir. Gan nad oes angen y mesurau hyn i ganiatáu i'r system bleidleisio gyfrif nifer gywir y pleidleisiau a fwriwyd, nid ydynt wedi'u cyflwyno ac fe ystyrir y cofnod electronig o'r pleidleisiau unigol a fwriwyd fel isgynnyrch o'r system; nid yn gofnod sicr. Dylid nodi y gellid cyflwyno'r rhagofalon ychwanegol os yw'r Cyngor yn cytuno y gall y cyhoedd gael mynediad at gofnodion pleidleisio penodol, ond ni ddylai hwn fod yn ôl-weithredol h.y. ar gyfer unrhyw gyfarfodydd a gynhelir cyn y mesurau ychwanegol.

4.4 Mae trefn yn y Rheol Sefydlog yn barod ar gyfer cofnodi'r ffordd y caiff pleidleisiau eu bwrw, sy'n cynnwys pob cynghorydd yn datgan sut maent yn pleidleisio. Gelwir hyn yn bleidlais a gofnodwyd. Caiff pleidlais a gofnodwyd ei bwrw lle bydd un rhan o chwech o'r aelodau sy'n bresennol yn gofyn amdano. Bydd canlyniadau'r bleidlais a gofnodwyd yn cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod perthnasol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn uniongyrchol.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

<u>Ymgynghoriadau</u>

7.1 Mae cofnodion a threfnau pleidleisio electronig wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 10 Ebrill 2013 ac arweinwyr y grŵp ar 3 Mai 2013. Roedd y Pwyllgor ac arweinwyr y grŵp o blaid caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad at sut roedd aelodau'n pleidleisio, gan ei fod yn cefnogi diffuantrwydd ac eglurder, ond hefyd eisiau i bob aelod fod yn ymwybodol o'r materion a oedd ynghlwm.

<u>Asesiad o Effaith ar gydraddoldeb</u>

7.2 Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn asesu'r effaith tebygol o benderfyniadau ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir. Ni ystyrir bod y materion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith ac felly ni chynhaliwyd asesiad ffurfiol.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn codi o’r adroddiad hwn.

## 9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r risgiau sydd ynghlwm wrth wneud y cofnodion pleidleisiau electronig yn agored i’r cyhoedd. Mae’r adroddiad hefyd yn amlygu’r mesurau y byddai eu hangen os yw’r Cyngor yn penderfynu gwneud y cofnodion yn agored i'r cyhoedd.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006